**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/0821/20

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a
Materion Gwledig Senedd Cymru

Annwyl Mike,

24 Mehefin 2020

Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar Reoliadau Newid Hinsawdd (Cymru) 2018, ymrwymais i ail-ystyried y targed presennol ar gyfer 2050 ac adrodd yn ôl i'r Senedd cyn pennu y drydedd gyllideb garbon. Ym mis Mai y llynnedd cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei argymhellion i Gymru gynyddu ei tharged ar gyfer 2050 i 95% o leiaf. Yn fuan wedyn derbyniais yr argymhelliad yn gyhoeddus a chyhoeddais fy mwriad i gyflwyno rheoliadau yn y Senedd i ddiwygio'r targed presennol yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

Ym mis Rhagfyr 2019 ysgrifennais at y Pwyllgor Newid Hinsawdd i ofyn am eu cyngor ynghylch sut mae newid targed 2050 yn cael effaith ar y targedau dros dro a'r ail gyllideb carbon a osodwyd gan y Senedd yn 2018. Gofynnais hefyd am gyngor ynghylch lefel y drydedd gyllideb garbon ac opsiynau o ran sut y gallai Gymru fynd y tu hwnt 95% i gyrraedd sero-net. Gyda'n cefnogaeth cysylltodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd gyda rhanddeiliaid mewn digwyddiadau yn Llandudno a Chaerdydd ym mis Ionawr, gan roi'r cyfle i gyfrannu at a dylanwadu ar gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ynghylch y lefel y dylid gosod y targedau a'r cyllidebau newydd.

Rydym yn bwriadu cysylltu ymhellach gyda rhanddeiliaid yn y misoedd nesaf i edrych ar yr effaith y gallai Cymru ei ddisgwyl os oedd y cynnydd yn nhymheredd cyfartalog y byd yn cael ei gyfyngu i 1.5ºC, o gymharu â 2ºC. Yn y cyngor y llynedd dywedodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd bod cyrraedd targed sero-net yn y DU, a'r argymhelliad ar gyfer 95% yng Nghymru, yn sicrhau cyfle gwell na 50% o gyfyngu ar y cynnydd cyfartalog byd-eang mewn tymheredd o 1.5 ºC, os caiff hyn ei gyflawni ledled y byd. Mae llwybr presennol Cymru i leihau allyriadau yn cyd-fynd mwy â chynnydd o 2ºC. Caiff rhanddeiliaid gysylltu hefyd drwy y broses ymgynghori ar y polisïau cyfranogi, sy'n datblygu i helpu i fodloni ein hamcanion uchelgeisiol ar gyfer yr hinsawdd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi ymrwymo i gyhoeddi eu cyngor ym mis Medi ond maent wedi cyhoeddi newidiadau ers hynny i’w rhaglen waith yn 2020 yn dilyn pandmeig Covid-19, ac wedi penderfynu oedi tan fis Rhagfyr cyn cyhoeddi eu cyngor. O ganlyniad, rwy’n ystyried bod yn well gosod y rheoliadau ar bennu y drydedd gyllideb carbon a diwygio’r llwybr lleihau allyriadau ehangach yn gynnar y flwyddyn nesaf, yn hytrach nag eleni yn ôl fy mwriad.

Wedi ystyried barn y Cabinet o gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd a chanlyniadau ein gweithgarwch cysylltu, byddaf yn cyflwyno y rheoliadau drafft ym mis Chwefror cyn cael amser yn y cyfarfod llawn ddechrau mis Mawrth. Rwy’n gobeithio y byddwch chi a’ch Pwyllgor yn deall y rhesymau dros yr amserlen newydd hon.

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs